Tachwedd 2018

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Cod Ymarfer Paru Data

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Rwyf wedi paratoi'r Cod Ymarfer Paru Data hwn, yn dilyn proses ymgynghori statudol, i'w gyflwyno i'r Cynulliad Cenedlaethol o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

**Adrian Crompton**
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**
**Archwilio Cymru**
**1 Cwr y Ddinas**
**Stryd Tyndall**
**Caerdydd**
**CF10 4BZ**

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol o'r Cynulliad Cenedlaethol ac o lywodraeth. Mae'n archwilio ac yn ardystio cyfrifon Llywodraeth Cymru a'r cyrff cyhoeddus sy'n gysylltiedig â hi ac a noddir ganddi, gan gynnwys cyrff y GIG. Mae ganddo'r pŵer i gyflwyno adroddiadau i'r Cynulliad Cenedlaethol ar ddarbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y defnydd a wna'r sefydliadau hynny o'u hadnoddau wrth gyflawni eu swyddogaethau, a sut y gallent wella'r defnydd hwnnw.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, mae'n cynnal astudiaethau gwerth am arian mewn llywodraeth leol ac yn arolygu cydymffurfiaeth gydag anghenion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â'i waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sydd yn fwrdd statudol wedi'i sefydlu ar gyfer y nod hwnnw ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol.

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2017

Cewch ailddefnyddio'r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys y logos) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng. Os byddwch yn ei ailddefnyddio, rhaid i chi ei ailddefnyddio'n gywir ac nid mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru a rhaid rhoi teitl y cyhoeddiad hwn. Lle nodwyd deunydd hawlfraint unrhyw drydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw cyn ei ailddefnyddio.

Am fwy o wybodaeth, neu os ydych angen unrhyw un o'n cyhoeddiadau mewn ffurf ac/neu iaith wahanol, cysylltwch â ni drwy ffonio 029 2032 0500 neu drwy e-bostio post@archwilio.cymru. Rydym yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Gallwch ysgrifennu atom hefyd, yn Gymraeg neu'n Saesneg, a byddwn yn ymateb yn yr iaith rydych chi wedi ei defnyddio. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

**This document is also available in English.**

# Cynnwys


Rhagair gan Archwilydd Cyffredinol Cymru 6

Rhan 1 – Cyflwyniad i'r Cod hwn 8

Rôl Archwilydd Cyffredinol Cymru 8
Cefndir Paru Data 8
Y Fframwaith Statudol 10
Strwythur y Cod 11
Adolygu'r Cod 11
Y Gydberthynas â Deddfwriaeth Diogelu Data 11
Atgynhyrchu'r Cod 12
Ymholiadau am y Cod 12
Cwynion 12

Rhan 2 – Ymarfer Paru Data 13

Statws, cwmpas a diben 13
Beth yw paru data? 14
Pwy sy'n cymryd rhan? 14
Trefniadau llywodraethu 15
Sut mae'r Archwilydd Cyffredinol yn dewis data at ddibenion paru 16
Y data a ddarperir at ddibenion paru 17
Pwerau i gael y data a darparu'r data 17
Tegwch a thryloywder 18
Ansawdd y data 20
Diogelwch data 20
Cyflenwi data i'r Archwilydd Cyffredinol 22
Ymarferion paru data gan yr Archwilydd Cyffredinol 22
Mynediad at y canlyniadau gan y cyrff dan sylw 22
Gwaith dilynol mewn perthynas â'r canlyniadau 23
Datgelu data a ddefnyddir at ddibenion paru data 24
Mynediad at ddata 25
Cadw data 26
Cyflwyno adroddiadau ar ymarferion paru data 27
Adolygu ymarferion paru data 27

Rhan 3 – Cydymffurfio â’r Cod a Rôl y Comisiynydd Gwybodaeth 28

Cydymffurfio â’r Cod 28

Rôl y Comisiynydd Gwybodaeth 28

Atodiadau

Atodiad 1 – ynglŷn â’r Fenter Twyll Genedlaethol a’i gweithgareddau 30

Atodiad 2 – Diffiniadau 32

# Rhagair gan Archwilydd Cyffredinol Cymru



Mae'n bleser gennyf gyflwyno'r Cod Ymarfer Paru Data hwn i Gynulliad Cenedlaethol Cymru o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn rhoi pwerau i mi gynnal ymarferion paru data. Mae'r statud yn ei gwneud yn ofynnol i mi baratoi'r Cod hwn, yn dilyn proses ymgynghori, ac i'r holl gyrff sy'n rhan o'r broses ddilyn y Cod wrth ymgymryd ag ymarferion paru data a gynhelir o dan y ddeddfwriaeth hon.

Yn 2017, gofynnodd fy rhagflaenydd, Huw Vaughan Thomas, i Bwyllgor Cyllid y Cynulliad Cenedlaethol ystyried newidiadau er mwyn diweddaru'r ddeddfwriaeth; er enghraifft, er mwyn iddi gynnwys dibenion pellach, megis atal a chanfod troseddau ac eithrio twyll. Mae angen diweddaru'r ddeddfwriaeth yn y fath fodd er mwyn sicrhau bod cwmpas y gwaith a wneir yng Nghymru yn cyfateb i gwmpas y gwaith a wneir gan asiantaethau archwilio eraill yn y DU. Os cynhelir proses ddiweddaru o'r fath, byddaf, wrth reswm, yn adolygu'r Cod er mwyn sicrhau ei fod yn rhoi ystyriaeth briodol i'r diweddariadau hynny.

Mae'r pwerau paru data a roddwyd i mi, a'r ffaith y caiff y pwerau hynny eu harfer gydag archwilwyr eraill yn y DU, yn cynnig ffordd bwerus o atal a chanfod twyll. Nodais tua £5.4 miliwn o arbedion yn yr ymarfer diweddaraf i Gymru, sef 2016-18 (**Adroddiad y Fenter Twyll Genedlaethol yng Nghymru 1 Ebrill 2016 i 31 Mawrth 2018**, Hydref 2018).

Mae’r Cod hwn yn hyrwyddo cydymffurfiaeth â’r gyfraith ac arfer da ymhlith pob corff sy’n cymryd rhan mewn ymarferion paru data gan ddefnyddio fy mhwerau, ond mae hefyd yn ystyried yr angen i ymgymryd â’r gwaith hwn yn ofalus er mwyn atal sefyllfaoedd lle y byddwn yn ymyrryd yn ddiangen ym musnes pobl. Fe’i datblygais gan ystyried yr ymatebion i’r ymgynghoriad statudol, dogfen ‘Data Sharing Code of Practice’ y Comisiynydd Gwybodaeth (Mai 2011), dogfen ‘Code of Practice on Privacy Notices, Transparency and Control’ y Comisiynydd Gwybodaeth (Hydref 2016) a Chanllawiau’r Gweithgor Diogelu Data Erthygl 29 ar Dryloywder o dan Reoliad 2016/679 (y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR)).

Bydd y Cod yn helpu i sicrhau y caiff gwybodaeth pobl ei diogelu a’i phrosesu’n briodol yn ystod ymarferion paru data. Mae hefyd yn helpu i hysbysu unigolion pam y caiff eu data eu paru, y safonau a’r camau diogelwch sy’n berthnasol a ble y gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth.

Adrian Crompton

**Archwilydd Cyffredinol Cymru**

# Rhan 1 – Cyflwyniad i'r Cod hwn

## Rôl Archwilydd Cyffredinol Cymru

1 Yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilydd allanol y rhan fwyaf o'r sector cyhoeddus yng Nghymru. Mae'n archwilio ac yn ardystio cyfrifon Llywodraeth Cymru a'r cyrff cyhoeddus a noddir ganddi a chyrff cyhoeddus cysylltiedig, Comisiwn y Cynulliad a chyrff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru, yn ogystal â chynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol, comisiynwyr yr heddlu a throseddu, prif gwnstabliaid, awdurdodau tân ac achub, parciau cenedlaethol a chynghorau cymuned. Mae ganddo bŵer statudol i gyflwyno adroddiadau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru am ddarbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y defnydd a wna'r sefydliadau hynny o'u hadnoddau wrth gyflawni eu swyddogaethau, a sut y gallent wella'r defnydd hwnnw.

2 Lle bo'r Archwilydd Cyffredinol yn archwilydd allanol ar gyfer corff sy'n cymryd rhan[1], bydd yn anelu at asesu'r trefniadau sydd ar waith gan y corff hwnnw er mwyn atal a chanfod twyll, olrhain ac ymchwilio i achosion o baru a gweithredu ar achosion o dwyll a gwallau.

## Cefndir Paru Data

3 Mae'n bwysig bod rheolaethau digonol ar waith gan gyrff cyhoeddus er mwyn atal a chanfod achosion o dwyll a gwallau. Mae twyll o fewn llywodraeth leol, y gwasanaeth iechyd a chyrff cyhoeddus eraill yn bryder sylweddol i'r cyrff hynny, ac i'r Archwilydd Cyffredinol.

4 Mae ymarferion paru data, fel y Fenter Twyll Genedlaethol a gynhelir gan yr Archwilydd Cyffredinol ar y cyd â Swyddfa'r Cabinet a chyrff archwilio'r DU, yn helpu cyrff archwiliedig i atal a chanfod achosion o dwyll a gwallau, gan felly sicrhau gwell gwerth gan arian cyhoeddus. Mae'r ymarferion hefyd yn helpu'r Archwilydd Cyffredinol i asesu'r trefniadau sydd ar waith gan gyrff archwiliedig er mwyn ymdrin ag achosion o dwyll, a all helpu'r cyrff i sicrhau gwelliannau pellach.

1 Diffinnir y termau mewn print trwm yn Atodiad 2

5 Mae ymarferion paru data yn cymharu setiau o ddata, megis y gyflogres neu gofnodion buddiannau un corff yn erbyn cofnodion eraill a ddelir gan yr un corff neu gorff arall er mwyn gweld i ba raddau y maent yn cyfateb. Mae hyn yn golygu y gellir nodi achosion posibl o hawliadau a thaliadau twyllodrus. Lle y caiff data eu paru, gall nodi bod anghysondeb y mae angen ymchwilio ymhellach iddo; nid yw o reidrwydd yn darparu tystiolaeth o dwyll. Lle na chaiff unrhyw ddata eu paru, ni chaiff y pwerau paru data unrhyw effaith berthnasol ar yr unigolion dan sylw. Fel rhan o'r Fenter Twyll Genedlaethol, mae'r cyrff sy'n cymryd rhan yn cael adroddiad ar yr achosion o baru sy'n nodi anghysondebau yn y data a ddelir ac y gallant fod yn arwydd o dwyll. Dylai'r cyrff sy'n cymryd rhan olrhain ac ymchwilio i achosion o baru o'r fath, er mwyn canfod achosion o dwyll, gordaliadau a thandaliadau a gwallau eraill a, lle y bo'n briodol, gymryd camau adfer a/neu ddiweddaru eu cofnodion yn unol â hynny.

6 Ar hyn o bryd, mae ymarferion paru data y Fenter Twyll Genedlaethol yn cynnwys dau brif faes: swmp-baru setiau o ddata a pharu ar adeg gwneud cais (a gynhelir pan fydd unigolyn yn gwneud cais am fudd-dal neu wasanaeth). Gweler Atodiad 1 i gael gwybodaeth am y gwasanaethau ar adeg gwneud cais sydd ar gael ar adeg ysgrifennu'r cod ymarfer hwn.

## Y Fframwaith Statudol

7 Mae’r Archwilydd Cyffredinol yn cynnal ymarferion paru data o dan ei bwerau statudol yn Neddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (Deddf 2004). O dan y ddeddfwriaeth:

a gall yr Archwilydd Cyffredinol gynnal ymarferion paru data er mwyn helpu i atal a chanfod twyll, fel rhan o archwiliad neu fel arall.

b gall yr Archwilydd Cyffredinol ei gwneud yn ofynnol i gyrff llywodraeth leol a chyrff y GIG yng Nghymru ddarparu data ar gyfer ymarferion paru data.

c gall cyrff eraill gymryd rhan yn ymarferion paru data’r Archwilydd Cyffredinol ar sail wirfoddol lle y bydd yr Archwilydd Cyffredinol o’r farn bod hynny’n briodol. Lle y byddant yn gwneud hynny, mae Deddf 2004 yn datgan nad oes achos o dor-cyfrinachedd ac yn gyffredinol yn dileu cyfyngiadau eraill wrth ddarparu’r data i Archwilydd Cyffredinol Cymru.

ch Mae gofynion deddfwriaeth diogelu data yn gymwys, felly ni ellir darparu data yn wirfoddol os byddai gwneud hynny yn mynd yn groes i ddeddfwriaeth diogelu data.

d gall yr Archwilydd Cyffredinol ddatgelu canlyniadau ymarferion paru data i gyrff sydd wedi darparu’r data yn ogystal â’u datgelu yn unol â dyletswydd o dan unrhyw ddeddfiad.

dd gall yr Archwilydd Cyffredinol gyhoeddi adroddiad cryno.

e gall yr Archwilydd Cyffredinol ddatgelu data a ddarparwyd at ddibenion paru data a chanlyniadau’r ymarferion paru data i Swyddfa’r Cabinet, Rheolydd ac Archwilydd Cyffredinol Gogledd Iwerddon, Archwilydd Cyffredinol yr Alban, Comisiwn Cyfrifon yr Alban ac Audit Scotland at ddibenion atal a chanfod twyll.

f mae’n drosedd i unrhyw berson gamddatgelu data a geir at ddibenion paru data. Yn dilyn collfarn ddiannod, bydd person a geir yn euog o’r drosedd yn agored i ddirwy hyd at lefel 5 ar y raddfa safonol.

ff gall yr Archwilydd Cyffredinol godi ffi ar unrhyw gorff sy'n cymryd rhan mewn ymarfer paru data a rhaid iddo bennu graddfa ffioedd ar gyfer cyrff y mae'n ofynnol iddynt gymryd rhan.

g rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol baratoi Cod Ymarfer Paru Data ar ôl ymgynghori â'r cyrff y mae'n ofynnol iddynt gymryd rhan (llywodraeth leol a'r GIG), y Comisiynydd Gwybodaeth a chyrff eraill fel y gwêl yr Archwilydd Cyffredinol yn briodol. Rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol hefyd osod copi o'r Cod ac unrhyw newidiadau a wnaed iddo gerbron y Cynulliad Cenedlaethol a chyhoeddi'r Cod. Rhaid i bob corff sy'n cynnal ei ymarferion paru data neu'n cymryd rhan ynddynt ystyried y Cod, gan gynnwys yr Archwilydd Cyffredinol ei hun.

## Strwythur y Cod

8 Mae trefn y Cod yn adlewyrchu camau cronolegol ymarfer paru data. Gwnaed hyn er mwyn sicrhau ei fod yn hygyrch i gyrff sy'n cymryd rhan.

9 Diffinnir rhai termau penodol a ddefnyddir yn y Cod yn Atodiad 2. Mae'r termau hyn yn ymddangos mewn testun du er mwyn gallu eu nodi'n hawdd.

## Adolygu'r Cod

10 Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn bwriadu adolygu a diweddaru'r Cod yn achlysurol pan fydd newidiadau i'r gyfraith ac er mwyn adlewyrchu sylwadau a phrofiad a geir yn ystod pob ymarfer paru data.

## Y Gydberthynas â Deddfwriaeth Diogelu Data

11 Yn ogystal â'r Cod hwn, wrth gymryd rhan mewn ymarferion paru data, dylai Cyrff sy'n Cymryd Rhan ystyried codau a chanllawiau perthnasol ar gyfer rhannu data neu wybodaeth, gan gynnwys unrhyw ganllawiau statudol gan y Comisiynydd Gwybodaeth, fel y ddogfen 'Data Sharing Code of Practice' a luniwyd o dan adran 121 o Ddeddf Diogelu Data 2018, a fydd ar gael ar wefan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.

12 Dylid ystyried bod cyfeiriadau at gydymffurfio â deddfwriaeth diogelu data yn cyfeirio at gydymffurfio â deddfwriaeth diogelu data gyfredol sy'n gymwys yn y DU.

## Atgynhyrchu'r Cod

13 Gall cyrff sy'n cymryd rhan mewn ymarferion paru data atgynhyrchu testun y Cod hwn fel y bo angen er mwyn sicrhau bod pawb sy'n rhan o'r broses yn ymwybodol o'u rhwymedigaethau yn ôl y gyfraith ac o dan y Cod hwn.

## Ymholiadau am y Cod

14 Dylid cyfeirio unrhyw gwestiynau am y cod hwn neu ymarfer paru data at Gydgysylltydd Menter Twyll Genedlaethol, Archwilio Cymru, 1 Cwr y Ddinas, Stryd Tyndall, Caerdydd CF10 4BZ; E-bost: menter.twyll@archwilio.cymru.

15 Mae gwybodaeth am ymarferion paru data yr Archwilydd Cyffredinol ar gael ar wefan Swyddfa Archwilio Cymru.

## Cwynion

16 Dylid cyfeirio cwynion am gyrff sy'n cymryd rhan yn ymarferion paru data yr Archwilydd Cyffredinol at y cyrff hynny.

17 Ymdrinnir â chwynion ynghylch y ffordd y cyflawnir swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol, gan gynnwys o ran sut mae staff Swyddfa Archwilio Cymru neu eraill yn ymgymryd â gwaith ar ei ran, o dan weithdrefn gwynion Swyddfa Archwilio Cymru. Gellir cyflwyno cwynion o'r fath dros y ffôn, drwy e-bost neu drwy lythyr at y Rheolwr Cwynion, Archwilio Cymru, 1 Cwr y Ddinas, Stryd Tyndall, Caerdydd CF10 4BZ, 029 2032 0500 neu cwynion@archwilio.cymru. Ceir rhagor o fanylion am y weithdrefn gwynion ar wefan Swyddfa Archwilio Cymru.

18 Os oes gennych bryder am y ffordd y mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymdrin â data personol, gallwch ei godi gyda Swyddog Diogelu Data Swyddfa Archwilio Cymru drwy anfon e-bost i swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru neu drwy ysgrifennu at y Rheolwr Cwynion, Archwilio Cymru, 1 Cwr y Ddinas, Stryd Tyndall, Caerdydd CF10 4BZ, neu drwy ffonio 029 2032 0500. Gallwch hefyd godi pryderon o'r fath gyda'r Comisiynydd Gwybodaeth (ceir manylion ar wefan y Comisiynydd Gwybodaeth).

# Rhan 2 – Ymarfer Paru Data

## Statws, cwmpas a diben

19 Paratowyd y Cod hwn gan yr Archwilydd Cyffredinol yn dilyn proses ymgynghori statudol, ac fe'i gosodwyd gerbron y Cynulliad Cenedlaethol o dan adran 64G(4) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004. Mae'n gymwys hyd nes y caiff Cod newydd ei gyflwyno gerbron y Cynulliad Cenedlaethol.

20 Mae'r Cod hwn yn gymwys i bob ymarfer paru data a gynhelir gan neu ar ran yr Archwilydd Cyffredinol o dan a64A o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 er mwyn helpu i atal neu ganfod twyll.

21 Rhaid i unrhyw berson neu gorff sy'n cynnal unrhyw rai o ymarferion paru data yr Archwilydd Cyffredinol, neu sy'n cymryd rhan ynddynt, yn ôl y gyfraith, ystyried darpariaethau'r Cod hwn.

22 Diben y Cod hwn yw egluro'r broses o baru data a rhoi arweiniad i'r Archwilydd Cyffredinol a'i staff, neu eraill sy'n cynnal gwaith ar ei ran, a'r holl gyrff sy'n ymwneud ag ymarferion paru data er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r gyfraith, yn enwedig darpariaethau deddfwriaeth diogelu data. Bwriedir iddo hefyd hyrwyddo arfer da ym maes paru data a hysbysu unigolion pam bod eu data yn cael eu paru a chan bwy, y safonau sy'n berthnasol a ble i ddod o hyd i ragor o wybodaeth. Fodd bynnag, mae dyletswydd ar bob corff sy'n cymryd rhan i sicrhau bod ei weithdrefnau ei hun wrth gymryd rhan yn cydymffurfio â'r gyfraith fel y'i diwygir o bryd i'w gilydd.

23 Fodd bynnag, nid oes yn rhaid cymhwyso'r Cod hwn yn gaeth at y camau manwl a gymerir gan gorff sy'n cymryd rhan i ymchwilio i achosion o baru sy'n deillio o ymarfer paru data. Cyfrifoldeb y cyrff sy'n cymryd rhan fydd ymchwilio i achosion o baru yn unol â'u harferion arferol ar gyfer ymchwilio i achosion o dwyll a gwallau.

24 Mae'r Comisiynydd Gwybodaeth o'r farn bod darpariaethau'r Cod hwn yn dangos ymrwymiad i safonau arfer da a fydd yn helpu sefydliadau i gydymffurfio â deddfwriaeth diogelu data.

## Beth yw paru data?

25 Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn diffinio paru data fel y broses o gymharu setiau o ddata er mwyn penderfynu i ba raddau y maent yn cyfateb (gan gynnwys nodi unrhyw batrymau neu dueddiadau). Diben paru data yw nodi anghysondebau a all awgrymu achos o dwyll. Mae'r Ddeddf yn nodi'n glir na ellir defnyddio pwerau paru data i nodi patrymau na thueddiadau o ran nodweddion neu ymddygiad unigolyn nad ydynt yn awgrymu dim byd mwy na photensial yr unigolyn i gyflawni twyll yn y dyfodol.

26 Lle y caiff data eu paru, mae'n awgrymu y gall fod anghysondeb y mae angen ymchwilio ymhellach iddo. Ni ellir rhagdybio p'un a oes achos o dwyll, gwall neu esboniad arall hyd nes y bydd y corff sy'n cymryd rhan wedi cynnal ymchwiliad.

27 Fel arfer, data personol a gaiff eu cymharu. Dim ond yn unol â deddfwriaeth diogelu data y gellir cael gafael ar ddata personol a'u prosesu.

## Pwy sy'n cymryd rhan?

28 O dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004, gall yr Archwilydd Cyffredinol ei gwneud yn ofynnol i bob corff llywodraeth leol a phob un o gyrff y GIG yng Nghymru ddarparu data personol sy'n ymwneud â'u cyflogeion, aelodau a'r bobl a wasanaethir ganddynt ar gyfer ymarferion paru data. Yn y Cod hwn, cyfeirir at y cyrff y mae'n ofynnol iddynt gymryd rhan yn y fath fodd fel cyrff gorfodol. Rhaid i gyrff gorfodol ddarparu data ar gyfer ymarferion paru data fel sy'n ofynnol gan yr Archwilydd Cyffredinol o dan adran 64B o Ddeddf 2004. Mae methu â darparu data sy'n ofynnol heb esgus rhesymol yn drosedd.

29 Gall unrhyw gorff neu berson arall ddarparu data yn wirfoddol ar gyfer ymarferion paru data os bydd yr Archwilydd Cyffredinol o'r farn ei bod yn briodol defnyddio ei ddata. Cyfeirir at y rhain fel cyrff sy'n cymryd rhan yn wirfoddol yn y Cod hwn. Lle y bydd corff sy'n cymryd rhan yn wirfoddol yn darparu data i'r Archwilydd Cyffredinol ar gyfer ymarferion paru data, mae'r gyfraith (adran 64C o Ddeddf 2004) yn nodi nad yw hyn yn dor-cyfrinachedd, ac yn gyffredinol nad yw'n torri unrhyw gyfyngiadau cyfreithiol eraill. Fodd bynnag, ni ellir rhannu data cleifion yn wirfoddol, a dim ond os bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn ei gwneud yn ofynnol i gorff gorfodol eu darparu y gellir eu defnyddio mewn ymarfer paru data.

30 Gall yr Archwilydd Cyffredinol gynnal ymarferion paru data ei hun neu gall drefnu iddynt gael eu cynnal ar ei ran. Yn ymarferol, cynhelir y rhan fwyaf o ymarferion paru data yr Archwilydd Cyffredinol ar ffurf ymarferion ar y cyd ag asiantaethau archwilio eraill yn y DU, fel y Fenter Twyll Genedlaethol. Yn hyn o beth, mae Swyddfa'r Cabinet wedi ymgymryd â phob agwedd allweddol ar yr ymarfer ar ran yr Archwilydd Cyffredinol[2] ac archwilwyr eraill yn y DU, gan gynnwys y gwaith o gasglu a phrosesu data.

## Trefniadau llywodraethu

31 Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ei gwneud yn ofynnol i Gyfarwyddwr Cyllid, neu swyddog cyfatebol, pob corff sy'n cymryd rhan weithredu fel y swyddog cyfrifol ac enwebu uwch aelod o staff i weithredu fel y cyswllt allweddol ar gyfer pob ymarfer paru data. Dylai'r swyddog cyfrifol hefyd enwebu aelodau o staff i fod yn gyfrifol am ymdrin â data ac ymchwilio i achosion o baru. Dylai'r swyddog cyfrifol sicrhau bod y staff a gaiff eu henwebu yn meddu ar gymwysterau addas a'u bod wedi'u hyfforddi ar gyfer eu rôl.

32 Dylai'r cyswllt allweddol gydgysylltu â Swyddog Diogelu Data'r corff sy'n cymryd rhan. Dylid cynnwys y Swyddog Diogelu Data yn y trefniadau ar gyfer ymdrin â data, hyfforddi a darparu hysbysiadau preifatrwydd ar yr adeg briodol.

33 Cydgysylltydd y Fenter Twyll Genedlaethol yw'r prif bwynt cyswllt yn Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer holl ymarferion paru data yr Archwilydd Cyffredinol (menter.twyll@archwilio.cymru). Ceir manylion cyswllt llawn ym mharagraff 14.

34 Ar gyfer pob ymarfer paru data, bydd yr Archwilydd Cyffredinol (neu ei asiant) yn sicrhau bod canllawiau ar gael i bob corff sy'n cymryd rhan. Bydd y canllawiau hyn yn nodi'r cyfrifoldebau manwl a'r gofynion o ran cymryd rhan. Mae'r canllawiau diweddaraf ar gael ar wefan Swyddfa Archwilio Cymru.

2 O dan adran 21 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013, rhaid i Swyddfa Archwilio Cymru ddarparu'r cyfryw wasanaethau ag sy'n ofynnol gan yr Archwilydd Cyffredinol er mwyn arfer ei swyddogaethau. Mae gan Swyddfa Archwilio Cymru hefyd y pŵer o dan adran 19 o Ddeddf 2013 i wneud trefniadau i gydweithredu â chyrff cyhoeddus eraill er mwyn hwyluso'r broses o arfer swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol a swyddogaethau cyrff eraill.

35 Bydd y canllawiau yn cynnwys y canlynol:

- a rhestr o gyfrifoldebau'r swyddogion a enwebwyd yn y corff sy'n cymryd rhan;
- b manylebau ar gyfer pob set o ddata (gan restru'r data sylfaenol i'w darparu gan y corff sy'n cymryd rhan er mwyn gallu paru data ac er mwyn sicrhau canlyniadau o ansawdd digonol);
- c manylion am unrhyw ofynion pellach a ffurflenni sy'n ymwneud â'r data i'w darparu;
- ch amserlen ar gyfer y gwaith prosesu;
- d ffurflen cydymffurfio â deddfwriaeth diogelu data; a
- dd gwybodaeth am sut i ddehongli achosion o baru, ac am gydweithredu rhwng cyrff sy'n cymryd rhan.

## Sut mae'r Archwilydd Cyffredinol yn dewis data at ddibenion paru

36 Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn dewis setiau o ddata i'w paru pan fydd tystiolaeth resymol y gall fod achos o dwyll a bod yr achos hwn o dwyll yn debygol o gael ei ganfod o ganlyniad i baru'r setiau data hynny. Bydd hyn yn ystyriaeth allweddol pan fydd yr Archwilydd Cyffredinol yn penderfynu p'un a yw'n briodol derbyn data gan gorff sy'n cymryd rhan yn wirfoddol, neu ei gwneud yn ofynnol i gorff gorfodol ddarparu data. Gall y dystiolaeth ddeilio o ymarferion paru data blaenorol, o ymarferion peilot, o gyrff sy'n cymryd rhan neu o ffynonellau dibynadwy eraill o wybodaeth, megis staff yr Archwilydd Cyffredinol neu eraill sy'n ymgymryd â gwaith ar ei ran.

37 Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â meysydd newydd o baru data ar sail beilot er mwyn profi eu heffeithiolrwydd wrth atal neu ganfod twyll. Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn adolygu canlyniadau ymarferion peilot a dim ond pan fydd yr ymarferion peilot yn arwain at achosion o baru data sy'n dangos lefel sylweddol o achosion posibl o dwyll y bydd yn ehangu'r ymarferion hynny. Gall lefel sylweddol ddeillio o nifer fach o ddigwyddiadau difrifol o dwyll neu nifer fawr o ddigwyddiadau llai. Mae telerau llawn y Cod hwn yn gymwys i ymarferion peilot. Rhaid darparu data peilot yn unol â darpariaethau deddfwriaeth diogelu data.

38 Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn adolygu canlyniadau pob ymarfer paru data llawn er mwyn sicrhau ei bod yn briodol parhau i baru'r data hynny a hefyd er mwyn mireinio ei ddulliau dewis data ar gyfer ymarferion yn y dyfodol. Yn benodol, bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn ystyried p'un a yw achosion o baru o'r fath yn dangos lefel sylweddol o dwyll o hyd.

## Y data a ddarperir at ddibenion paru

39 Gofynnir i gyrff sy'n cymryd rhan ddarparu'r isafswm data sydd eu hangen er mwyn cynnal yr ymarfer paru, er mwyn gallu adnabod unigolion yn gywir ac er mwyn gallu cyflwyno canlyniadau o ansawdd digonol. Caiff hyn ei nodi ar ffurf manyleb data ar gyfer pob set ddata yng nghanllawiau'r Archwilydd Cyffredinol ar gyfer pob ymarfer.

40 Fel arfer, caiff unrhyw ddiwygiadau i'r manylebau data eu cyhoeddi o leiaf chwe mis cyn y disgwylir i'r setiau data gael eu darparu ar wefan Swyddfa Archwilio Cymru. Bydd Cydgysylltydd Menter Twyll Genedlaethol yr Archwilydd Cyffredinol yn tynnu sylw cysylltiadau allweddol y cyrff sy'n cymryd rhan at ddiwygiadau o'r fath drwy neges e-bost. Gwneir hyn er mwyn sicrhau y caiff y cyrff sy'n cymryd rhan eu hysbysu'n gynnar am unrhyw newidiadau er mwyn iddynt allu paratoi'n ddigonol.

## Pwerau i gael y data a darparu'r data

41 O dan adran 64B o Ddeddf 2004, rhaid i bob corff gorfodol ddarparu data ar gyfer ymarferion paru data fel sy'n ofynnol gan yr Archwilydd Cyffredinol.

42 Rhaid i'r data a ddarperir i'r Archwilydd Cyffredinol at ddibenion paru data gan gorff sy'n cymryd rhan yn wirfoddol gydymffurfio â deddfwriaeth diogelu data, rhaid sicrhau nad ydynt wedi'u gwahardd gan Ran 1 o Ddeddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwiliol 2000 ac ni allant gynnwys data cleifion. Fel arall, mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (a64C) yn nodi nad yw darparu'r data yn gyfystyr â thor-cyfrinachedd, ac yn gyffredinol nad yw'n mynd yn groes i gyfyngiadau eraill.

43 Ni ellir rhannu data cleifion yn wirfoddol, ac felly dim ond os bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn ei gwneud yn ofynnol i gorff gorfodol eu darparu y gellir eu defnyddio mewn ymarfer paru data.

44 Mae'n ofynnol i bob corff sy'n cymryd rhan ddarparu'r data yn unol â darpariaethau deddfwriaeth diogelu data. Yn ymarferol, bydd hyn yn golygu naill ai y caiff data eu datgelu'n unol â'r egwyddorion diogelu data, neu y cymhwyswyd eithriad perthnasol o dan Ddeddf Diogelu Data 2018.

45 Yn y rhan fwyaf o achosion, cynhelir ymarferion paru data yn unol â'r egwyddorion diogelu data heb fod angen dibynnu ar eithriadau.

## Tegwch a thryloywder

46 Mae deddfwriaeth diogelu data yn ei gwneud yn ofynnol y caiff data eu prosesu mewn ffordd gyfreithiol, deg a thryloyw ac at ddibenion penodedig a chyfreithlon. Yn ogystal, rhaid i reolyddion data hysbysu unigolion y caiff eu data eu prosesu. Felly, rhaid i'r cyrff sy'n cymryd rhan ddarparu hysbysiad ysgrifenedig, a elwir yn hysbysiad preifatrwydd, sy'n cynnwys y wybodaeth sy'n ofynnol gan ddeddfwriaeth diogelu data. Mae canllawiau ar wefan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn https://ico.org.uk/.

47 Dylai'r hysbysiadau preifatrwydd gynnwys y wybodaeth sy'n ofynnol gan ddeddfwriaeth diogelu data megis:

- pwy yw'r rheolydd data,
- at ba ddiben neu ddibenion y gellir prosesu'r data,
- y sail gyfreithiol y mae'r rheolydd data yn dibynnu arni er mwyn prosesu'r data,
- categorïau'r data personol a gesglir,
- derbynnydd neu gategorïau derbynyddion data personol,
- manylion y cyfnod cadw neu'r meini prawf ar gadw,
- ffynhonnell y data personol,
- yr hawl i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, ac
- unrhyw wybodaeth bellach sydd ei hangen er mwyn gallu sicrhau bod y gweithdrefnau prosesu yn deg.

48 Dylai cyrff sy'n cymryd rhan, cyhyd ag y bo'n ymarferol ac oni fydd eithriad rhag y gofyniad prosesu teg yn gymwys, sicrhau y caiff hysbysiadau eu darparu, neu eu bod ar gael yn hawdd, i'r unigolion y maent yn rhannu gwybodaeth amdanynt. Dylai'r hysbysiad preifatrwydd nodi esboniad clir y gellir datgelu eu data at ddiben atal a chanfod twyll a dylai gynnwys manylion y sail gyfreithiol y mae'r rheolydd data yn dibynnu arni er mwyn prosesu'r data. Dylai'r hysbysiad ddatgan y caiff y wybodaeth ei darparu i'r Archwilydd Cyffredinol at y diben hwn a dylai nodi gyda phwy y caiff y data eu rhannu. Dylai'r hysbysiad preifatrwydd hefyd gynnwys manylion sut y gall unigolion gael rhagor o wybodaeth am y gweithdrefnau prosesu a sut i arfer eu hawliau.

49 Dylai unrhyw ohebiaeth ag unigolion y caiff eu data eu paru fod yn glir, yn amlwg ac yn amserol. Lle y cynhelir ymarfer paru data ar adeg gwneud cais (e.e. ar yr adeg y bydd unigolyn yn gwneud cais am fudd-dal), yna bydd hysbysiad preifatrwydd a ddarperir ar yr adeg hon yn ddigonol. Lle y cynhelir ymarfer paru data ar ôl yr adeg gwneud cais, mae'n arfer da cyhoeddi hysbysiadau preifatrwydd pellach cyn pob cyfres o ymarferion paru data. Mae canllawiau'r Comisiynydd Gwybodaeth a grybwyllir uchod yn nodi pryd y dylai sefydliad ddarparu gwybodaeth am breifatrwydd.

50 Wrth ddarparu data i'r Archwilydd Cyffredinol, neu Swyddfa'r Cabinet fel asiant yr Archwilydd Cyffredinol, dylai'r corff sy'n cymryd rhan gyflwyno ffurflen cydymffurfio â deddfwriaeth diogelu data yn cadarnhau ei fod wedi cydymffurfio â gofynion hysbysu'r hysbysiad preifatrwydd. Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn cadarnhau bod y corff wedi cydymffurfio â'r gofynion a, lle bo angen, bydd yn nodi'r camau sydd eu hangen er mwyn i'r corff sy'n cymryd rhan gydymffurfio. Gall hefyd ofyn am fewnbwn gan y Comisiynydd Gwybodaeth fel rhan o'r broses hon.

51 Dylai cyrff sy'n cymryd rhan ddarparu hysbysiadau preifatrwydd ar yr adeg y byddant yn casglu data personol lle y bo'n ymarferol. Cyfrifoldeb y cyrff sy'n cymryd rhan yw sicrhau bod hysbysiadau preifatrwydd yn unol â'r gyfraith, fel y saif ar y pryd, ac yn unol â chanllawiau cyfredol Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, a'u bod yn darparu hysbysiad priodol ar yr adeg briodol er mwyn bodloni gofynion tegwch a thryloywder. Dylai cyrff sy'n cymryd rhan bob amser ddarparu hysbysiadau o'r fath cyn datgelu data i'r Archwilydd Cyffredinol neu ei asiant, onid yw'n anymarferol gwneud hynny.

52 Bydd rhannau o'r data a ddefnyddir ar gyfer ymarferion paru data yn ymwneud â phobl sydd wedi marw. Er nad ystyrir bod gwybodaeth sy'n ymwneud ag unigolyn sydd wedi marw yn ddata personol mewn perthynas â'r person sydd wedi marw o dan ddeddfwriaeth diogelu data, mae'n bosibl y bydd rheolau cyfrinachedd cyfraith gwlad yn atal y data hynny rhag cael eu datgelu, ac mae data o'r fath hefyd yn debygol o fod yn wybodaeth bersonol am unigolyn byw y gellir ei adnabod. Er mwyn osgoi unrhyw ofid neu niwed diangen, dylid bod yn arbennig o ofalus a sensitif wrth ymdrin â data sy'n ymwneud â phobl sydd wedi marw drwy gydol yr ymarfer ac wrth ymchwilio i achosion o baru.

## Ansawdd y data

53 Dylai cyrff sy'n cymryd rhan sicrhau bod y data a ddarperir ganddynt i'r Archwilydd Cyffredinol a'i asiantau o ansawdd da o ran cywirdeb a chyflawnder, yn unol â deddfwriaeth diogelu data, sy'n ei gwneud yn ofynnol i ddata personol fod yn gywir a, lle y bo angen, yn gyfredol.

54 Cyn darparu data personol at ddibenion paru, dylai cyrff sy'n cymryd rhan sicrhau bod y data hyn mor gywir ac mor gyfredol â phosibl. Dylid cywiro gwallau a nodwyd yn ystod ymarferion paru data blaenorol, a chymryd camau i ymdrin â materion a godwyd o fewn adroddiadau ansawdd data yn deillio o'r ymarferion hynny.

55 Mae'r hawl o dan ddeddfwriaeth diogelu data i gael data personol anghywir wedi'u cywiro yn gysylltiedig â'r gofyniad o dan ddeddfwriaeth diogelu data i ddata fod yn gywir. Dylid cyfeirio at ganllawiau'r Comisiynydd Gwybodaeth ar gywiro data: Hawl i gywiro data | ICO

## Diogelwch data

56 Rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol, unrhyw gwmni neu gorff sy'n cynnal ymarferion paru data fel ei asiant a phob corff sy'n cymryd rhan roi trefniadau diogelwch ar waith ar gyfer ymdrin â data a'u storio fel rhan o ymarferion paru data.

57 Dylai'r trefniadau hyn sicrhau'r canlynol:

a bod cyfrifoldeb penodol am ddiogelwch data wedi'i neilltuo i berson neu bersonau cyfrifol o fewn pob sefydliad,

b bod mesurau diogelwch yn rhoi ystyriaeth briodol i'r amgylchedd ffisegol lle y caiff y data eu cadw, gan gynnwys diogelwch y safle a chyfleusterau storio,

c bod rheolaethau ffisegol a rhesymegol ar waith i gyfyngu mynediad at ddata electronig er mwyn sicrhau mai dim ond y rheini y mae angen iddynt gael gafael ar y data at ddiben yr ymarfer paru data all wneud hynny,

ch y bydd pob aelod o staff Swyddfa Archwilio Cymru ac unrhyw gwmni sy'n gweithredu fel asiant i'r Archwilydd Cyffredinol sydd â mynediad at ddata personol yn destun gweithdrefnau cadarnhau diogelwch. Fel isafswm, caiff Gwiriadau Safonol Diogelwch Sylfaenol eu cynnal ar bob unigolyn o'r fath cyn iddo ddechrau gweithio ar ymarfer paru data,

d y rhoddir hyfforddiant digonol i bob aelod o staff a all gael gafael ar ddata i'w alluogi i werthfawrogi pam a sut mae angen iddo ddiogelu'r data. Dylai cyrff sy'n cymryd rhan sicrhau bod eu staff wedi cael hyfforddiant digonol, y cedwir cofnodion o'r hyfforddiant hwn a dylent gyfeirio staff at yr adnoddau hyfforddi ar wefan ddiogel y Fenter Twyll Genedlaethol sy'n cynnig canllawiau ar sut i ddefnyddio gwefan y Fenter a sut i adolygu achosion o baru,

dd bod systemau cadarn ar waith i gofnodi mynediad at ddata, y defnydd o ddata ac achosion o drosglwyddo data,

f os ceir tor-diogelwch, neu os amheuir achos o dor-diogelwch, lle y bo angen, dylid rhoi cyfrineiriau newydd i ddefnyddwyr awdurdodedig neu ei gwneud yn ofynnol iddynt newid eu cyfrineiriau cyn gynted â phosibl. Dylai'r corff cyfrifol hefyd ddilyn canllawiau'r Comisiynydd Gwybodaeth ar reoli achosion o dor-diogelwch. Dylai cysylltiadau allweddol cyrff sy'n cymryd rhan a Chydgysylltydd Menter Twyll Genedlaethol Swyddfa Archwilio Cymru (menter.twyll@archwilio.cymru) roi gwybod i'w gilydd ar unwaith os ceir achos a amheuir neu a gadarnheir o dor-diogelwch a dylid sicrhau y caiff Swyddogion Diogelu Data Swyddfa Archwilio Cymru a/ neu'r cyrff sy'n cymryd rhan yr effeithir arnynt eu hysbysu hefyd.

58 Dylid sicrhau bod pob unigolyn sy'n ymdrin â data fel rhan o'r ymarfer paru data yn ymwybodol o'i rwymedigaethau o ran diogelu data, cyfrinachedd a diogelwch o dan ddeddfwriaeth diogelu data, Deddf 2004 a'r Cod hwn, a dylid rhoi hyfforddiant priodol i bob unigolyn o'r fath. Dylid sicrhau bod gweithdrefnau awdurdodi mynediad caeth ar waith i aelodau o staff o'r fath, a dylid ymdrin ag unrhyw achos o dorri'r gweithdrefnau hyn drwy'r broses ddisgyblu berthnasol.

59 Lle y bydd yr Archwilydd Cyffredinol neu ei asiantiaid wedi creu gwefannau ar gyfer trosglwyddo data neu ganlyniadau ymarferion paru data, bydd y gwefannau hyn wedi'u diogelu gan ddefnyddio cyfrinair ac wedi'u hamgryptio hyd at safonau SSL 256 did. Mae hyn yn berthnasol i wefan bresennol y Fenter Twyll Genedlaethol.

60 Bydd unrhyw gorff neu gwmni sy'n prosesu data fel asiantiaid yr Archwilydd Cyffredinol yn gwneud hynny o dan gytundeb neu gontract ysgrifenedig sy'n ei gwneud yn ofynnol i safonau diogelwch technegol a sefydliadol yr asiant gyrraedd ISO 27001/02. Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn cadarnhau cydymffurfiaeth â'r safonau hyn o bryd i'w gilydd.

61 Lle y bydd Swyddfa'r Cabinet neu gorff arall yn ymgymryd ag ymarferion paru data ar ran yr Archwilydd Cyffredinol, rhaid sicrhau bod contract ysgrifenedig neu gytundeb cyfreithiol cyfrwymol arall ar waith sy'n cynnwys darpariaethau prosesu data sy'n ofynnol gan ddeddfwriaeth diogelu data ac sy'n pennu safonau diogelwch fel y'u hamlinellir yn y Cod hwn.

## Cyflenwi data i'r Archwilydd Cyffredinol

62 Dim ond drwy wefan ddiogel y Fenter Twyll Genedlaethol (neu wefan ddiogel arall a awdurdodwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol) neu gan ddefnyddio Rhyngwynebau Rhaglennu Cymwysiadau (API) i gyflwyno gwybodaeth yn awtomatig at ddibenion paru y dylai cyrff sy'n cymryd rhan gyflwyno data i'r Archwilydd Cyffredinol ar gyfer ymarferion paru data.

## Ymarferion paru data gan yr Archwilydd Cyffredinol

63 Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn sicrhau y cynhelir ymarferion paru data yn deg ac er mwyn helpu i atal a chanfod twyll.

64 Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn cymhwyso rheolau paru data er mwyn nodi union achosion ac achosion niwlog o baru data sy'n nodi anghysondeb a allai awgrymu twyll.

65 Caiff yr holl ddata a drosglwyddir ac a gaiff eu storio'n electronig gan yr Archwilydd Cyffredinol neu ei asiantiaid eu dal ar system gyfrifiadurol ddiogel sydd wedi'i hamgryptio a'i diogelu gan gyfrinair o fewn amgylchedd diogel.

66 Bydd yr Archwilydd Cyffredinol neu ei asiantiaid yn gwneud copi wrth gefn o'r holl ddata a ddarperir ar gyfer ymarferion paru data ar adegau priodol. Bydd y copïau wrth gefn yn ddarostyngedig i'r un rheolaethau diogelwch a mynediad â'r data gwreiddiol.

## Mynediad at y canlyniadau gan y cyrff dan sylw

67 Dim ond drwy wefan ddiogel y Fenter Twyll Genedlaethol (neu wefan ddiogel arall ar gyfer paru data) neu API awdurdodedig y caiff yr holl ganlyniadau o ymarferion paru data, megis achosion o baru a gwybodaeth berthnasol arall sy'n deillio o'r gweithdrefnau prosesu, eu datgelu i gyrff sy'n cymryd rhan.

68 Dylai'r swyddog cyfrifol sicrhau mai dim ond i'r aelodau o staff a enwyd ar gyfer pob math o ganlyniad y caiff canlyniadau ymarfer paru data eu datgelu. Yn achos y Fenter Twyll Genedlaethol, mae gwefan ddiogel y Fenter wedi'i chynllunio at y diben hwnnw.

69 Dylid sicrhau bod yr holl ganlyniadau o ymarferion paru data a gynhelir gan y corff sy'n cymryd rhan wedi'u diogelu gan gyfrinair ar system gyfrifiadurol ddiogel sydd wedi'i diogelu gan gyfrinair. Dylid cadw unrhyw ganlyniadau a gaiff eu hargraffu mewn cyfleuster storio dan glo mewn amgylchedd diogel a dim ond unigolion awdurdodedig a enwyd ddylai allu cael gafael arnynt.

70 Pan fydd cyrff sy'n cymryd rhan yn rhannu data o dan gytundeb rhannu data ar adeg gwneud cais, mae'r cyrff sy'n cymryd rhan, ynghyd ag unrhyw ddarparwyr gwasanaethau sy'n gweithio ar eu rhan, yn gyfrifol am ddiogelwch yr holl wybodaeth a gaiff ei gweld neu a gaiff ei thynnu o'r system ac maent yn gyfrifol am sicrhau y caiff rheolaethau diogelwch priodol eu rhoi ar waith. (O ran y Fenter Twyll Genedlaethol, dim ond hyd at ryngwyneb y gwe-borth y mae Swyddfa'r Cabinet yn gyfrifol am ddiogelwch y wybodaeth ac nid yw'n gyfrifol am ddiogelwch systemau terfynol corff sy'n cymryd rhan na darparwr gwasanaeth sy'n gweld neu'n tynnu data oddi ar y porth).

71 Bydd darparwyr gwasanaethau a chyrff sy'n cymryd rhan yn sicrhau nad yw unrhyw systemau a ddefnyddir i gysylltu â gwe-borth y Fenter Twyll Genedlaethol (neu gwe-borth paru data arall) yn peri unrhyw risg o ran diogelwch i system y Fenter Twyll Genedlaethol. (Os caiff unrhyw draffig data ei nodi neu ei ystyried yn ddata maleisus gan Swyddfa'r Cabinet a'i darparwyr gwasanaethau o dan y Fenter Twyll Genedlaethol, gellir dod â chysylltiad y corff sy'n cymryd rhan â›r Fenter Twyll Genedlaethol i ben ar unwaith).

72 Bydd yr Archwilydd Cyffredinol ac unrhyw asiant sy'n ymgymryd â gwaith paru data ar ei ran, gan gynnwys Swyddfa'r Cabinet a'i darparwr gwasanaeth o dan y Fenter Twyll Genedlaethol, yn sicrhau bod gweithdrefnau a rheolaethau diogelu systemau ar waith mewn perthynas â'r wybodaeth a gaiff ei datgelu at ddibenion paru data sy'n adlewyrchu darpariaethau'r Cod hwn a deddfwriaeth diogelu data, er mwyn:

- sicrhau bod unrhyw achos damweiniol o gyfaddawdu'r wybodaeth, difrodi'r wybodaeth neu golli'r wybodaeth wrth brosesu, storio, trin, defnyddio, trosglwyddo neu gludo'r wybodaeth honno yn annhebygol;
- atal achosion bwriadol o gyfaddawdu'r wybodaeth, neu ymosodiadau manteisiol;
- dinistrio neu gael gwared ar ddata personol mewn ffordd sy'n golygu nad yw'n debygol y gellir eu hail-lunio.

## Gwaith dilynol mewn perthynas â'r canlyniadau

73 Nid yw'r Cod yn berthnasol i'r camau manwl a gymerir gan gorff sy'n cymryd rhan i ymchwilio i ganlyniadau ymarferion paru data. Nid yw achosion o baru data o reidrwydd yn dystiolaeth o dwyll, a dylai cyrff sy'n cymryd rhan adolygu'r canlyniadau er mwyn dileu achosion o baru drwy gyd-ddigwyddiad a chanolbwyntio ar achosion posibl o dwyll. Wrth wneud hynny, bydd angen iddynt nodi a chywiro achosion lle y cafwyd gwallau.

74 Ni ddylid gwneud unrhyw benderfyniad o ganlyniad i achos o baru data hyd nes y bydd ymchwilydd yn y corff sy'n cymryd rhan wedi ystyried yr amgylchiadau. Mae canllawiau ar ddehongli achosion o baru a chydweithrediad rhwng cyrff sy'n cymryd rhan ar gael ar wefan ddiogel y Fenter Twyll Genedlaethol.

75 Dylai cyrff sy'n cymryd rhan ystyried p'un a yw unrhyw gywiriadau i ddata personol y gwelir eu bod yn cynnwys gwallau o ganlyniad i baru data yn ddigon sylweddol i gyfiawnhau hysbysu'r bobl dan sylw amdanynt.

76 Dylai'r cyrff sy'n cymryd rhan hysbysu'r Archwilydd Cyffredinol am unrhyw ddiwygiadau i ddata personol er mwyn cywiro gwallau sylweddol er mwyn iddo allu diwygio'r data a gyflwynwyd ac atal unrhyw achosion pellach o baru o ganlyniad i'r gwall.

## Datgelu data a ddefnyddir at ddibenion paru data

77 Ni ellir datgelu data a geir at ddibenion ymarfer paru data oni fydd awdurdod cyfreithiol dros wneud hynny. Mae hyn yn berthnasol i ddata a geir gan yr Archwilydd Cyffredinol at ddibenion ymarferion paru data a chanlyniadau ymarferion paru data.

78 Mae awdurdod cyfreithiol i ddatgelu'r data neu'r canlyniadau lle y cânt eu datgelu at y diben neu mewn perthynas â'r diben y'u cafwyd ar ei gyfer h.y. er mwyn atal a chanfod twyll neu mewn perthynas â gwneud hynny. Mae hyn yn cynnwys, er enghraifft, datgelu'r canlyniadau i'r corff sy'n cymryd rhan er mwyn iddo ymchwilio i unrhyw achosion o baru data a'u datgelu i archwilydd er mwyn gallu asesu trefniadau'r corff sy'n cymryd rhan ar gyfer atal a chanfod twyll. Fodd bynnag, dim ond at ddiben sy'n ymwneud ag un o gyrff perthnasol y GIG y gellir rhannu data cleifion.

79 Gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd ddatgelu data i gyrff archwilio cyfatebol yn Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban, i'r cyrff y maent yn archwilio eu cyfrifon neu'n trefnu i'w cyfrifon gael eu harchwilio, ac i'r archwilwyr a benodir ganddynt. Dim ond os mai er mwyn helpu i atal a chanfod twyll, ymchwilio i drosedd a'i herlyn, at ddiben datgelu i archwilydd neu fel arall fel sy'n ofynnol yn ôl statud y gall corff sy'n derbyn canlyniadau gan yr Archwilydd Cyffredinol neu ei asiant ddatgelu'r canlyniadau hynny ymhellach.

80 Mae unrhyw achos o ddatgelu data gan yr Archwilydd Cyffredinol, corff sy'n cymryd rhan neu unrhyw berson arall sy'n mynd yn groes i'r cyfyngiadau hyn yn drosedd. Y darpariaethau statudol perthnasol yw adrannau 64D a 64E o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

## Mynediad at ddata

81 Mae gan unigolion y caiff eu data personol eu cynnwys mewn ymarfer paru data yr hawl o dan ddeddfwriaeth diogelu data i gael cadarnhad bod eu data personol yn cael eu prosesu ac i gael copi o'r wybodaeth sy'n cynnwys eu data personol. Mae gan unigolion a phobl eraill hefyd hawliau i gael mynediad at wybodaeth arall (nad yw'n bersonol) o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Dylid ymdrin â cheisiadau am ddata personol yn unol â threfniadau cyffredinol y sefydliad ar gyfer ymateb i'r ceisiadau hyn.

82 Gall eithriadau rhag y ddeddfwriaeth diogelu data olygu y bydd hawliau unigolion i weld gwybodaeth amdanynt wedi'u cyfyngu. Dylai'r sefydliad sy'n derbyn y cais am wybodaeth ystyried hyn ar sail yr achos unigol. Mae hyn yn golygu, mewn rhai achosion, y gellir gwrthod mynediad llawn i unigolion at wybodaeth amdanynt a broseswyd fel rhan o ymarferion paru data.

83 Gall unigolion sydd am wybod p'un a gaiff eu data eu cynnwys mewn ymarfer paru data edrych ar y manylebau data ar gyfer pob ymarfer ar wefan Swyddfa Archwilio Cymru neu drwy gysylltu â Chydgysylltydd Menter Twyll Genedlaethol Swyddfa Archwilio Cymru (gweler paragraff 14 i gael y manylion cyswllt). Bydd hyn yn rhoi gwybod iddynt pa setiau data a meysydd data rydym yn eu casglu a chan ba gyrff er mwyn iddynt allu penderfynu a yw eu data personol yn debygol o gael eu cynnwys mewn ymarfer. Dylent allu cadarnhau cywirdeb y data a ddelir amdanynt drwy gysylltu â'r corff sy'n cymryd rhan sy'n dal y data.

84 Dylai fod gan gyrff sy'n cymryd rhan weithdrefnau ar waith ar gyfer ymdrin â cheisiadau gan unigolion i gael gweld eu data, ac ar gyfer cwynion am y ffaith bod eu data wedi'u cynnwys mewn ymarfer paru data. Dylai hefyd fod ganddynt drefniadau ar waith ar gyfer diweddaru a chywiro data. Os bydd corff sy'n cymryd rhan yn cael cwyn yn ystod ymarfer paru data sy'n ymwneud â'r sail statudol dros yr ymarfer, neu os mai'r Archwilydd Cyffredinol sydd yn y sefyllfa orau i ymdrin â'r gŵyn am reswm arall, dylai'r corff drosglwyddo'r gŵyn yn ddi-oed. Dylid anfon cwynion am rôl yr Archwilydd Cyffredinol wrth gynnal ymarferion paru data at Reolwr Cwynion Swyddfa Archwilio Cymru (gweler paragraff 17) er mwyn gallu ymdrin â nhw o dan weithdrefn gwynion Swyddfa Archwilio Cymru.

85 Mae'n bosibl y bydd ceisiadau am wybodaeth arall (nad yw'n bersonol) o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 sy'n ymwneud ag ymarferion paru data yn ddarostyngedig i'r eithriadau a ddarperir yn y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, yn enwedig yr eithriad gorfodi'r gyfraith (adran 31). Fodd bynnag, dim ond i amgylchiadau lle y byddai datgelu data yn debygol o gael effaith andwyol ar ymdrech i atal neu ganfod trosedd y byddai'r eithriad gorfodi'r gyfraith yn berthnasol. Câi hyn ei ystyried ar sail achosion unigol. Fodd bynnag, bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn sicrhau bod gwybodaeth nad oes eithriadau yn berthnasol iddi ar gael yn hawdd, er enghraifft, drwy'r adroddiadau cryno a gyhoeddir ganddo ar ymarferion paru data.

## Cadw data

86 Ni ddylid cadw data personol ar ffurf sy'n golygu y gellir adnabod testun y data am gyfnod hwy nag sydd ei angen.

87 Ni fydd modd cael mynediad at ganlyniadau ymarfer paru data ar wefan ddiogel y Fenter Twyll Genedlaethol (nac unrhyw wefan paru data arall a gaiff ei chreu gan neu ar gyfer yr Archwilydd Cyffredinol) ar ôl yr isafswm cyfnod rhesymol y byddai ei angen i gyrff sy'n cymryd rhan ymgymryd â gwaith dilynol mewn perthynas ag achosion o baru data. O ran y Fenter Twyll Genedlaethol, bydd Swyddfa'r Cabinet yn hysbysu'r cyrff sy'n cymryd rhan am ddyddiad terfyn y cyfnod hwn a bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn cyhoeddi Amserlen Dileu Data yn nodi'r meini prawf ar gyfer cadw a dileu data ac achosion o baru ar wefan Swyddfa Archwilio Cymru. Yn yr un modd, bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn llunio amserlenni dileu data mewn perthynas ag unrhyw ymarferion paru data eraill a gynhelir gan yr Archwilydd Cyffredinol.

88 Gall cyrff sy'n cymryd rhan a'r Archwilydd Cyffredinol benderfynu cadw data ar ôl y cyfnodau cadw a ddynodir gan Swyddfa'r Cabinet mewn perthynas â data a ddelir ar wefan ddiogel y Fenter Twyll Genedlaethol, er enghraifft, fel papurau gwaith at ddibenion archwilio, neu er mwyn parhau ag ymchwiliad neu erlyniad. Dylai cyrff sy'n cymryd rhan ystyried beth y dylid ei gadw o dan eu hamgylchiadau unigol. Dylai cyrff sy'n cymryd rhan sicrhau y caiff data nad oes eu hangen mwyach, gan gynnwys unrhyw ddata oddi ar wefan ddiogel y Fenter Twyll Genedlaethol neu a rannwyd drwy API, eu dinistrio'n ddi-oed ac nad oes modd adfer y data hynny. Bydd data a gedwir yn ddarostyngedig i ofynion deddfwriaeth diogelu data.

89 Bydd yr Archwilydd Cyffredinol neu asiantiaid yr Archwilydd Cyffredinol yn dinistrio'r holl setiau data gwreiddiol a ddarparwyd iddo gan gyrff sy'n cymryd rhan o fewn chwe mis i'w cyflwyno. Gall fod angen cadw data penodol er mwyn darparu tystiolaeth ar gyfer erlyniadau neu er mwyn gosod amodau ar gyfrifon. Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn dinistrio'r holl ddata sy'n deillio o'r setiau data gwreiddiol neu a luniwyd o'r setiau data gwreiddiol yn ddi-oed ac, ac eithrio yn achos erlyniad, adroddiadau gwyngalchu arian neu dystiolaeth amodol, o fewn tri mis i ddiwedd yr ymarfer.

90 Caiff set unigol o godau cyfeirio ar gyfer achosion o baru, ynghyd ag unrhyw sylwadau a wnaed gan ymchwilwyr y corff sy'n cymryd rhan, hefyd eu cadw'n ddiogel all-lein gan yr Archwilydd Cyffredinol neu ei asiantiaid am gyhyd ag y byddant yn berthnasol. Gwneir hyn yn benodol er mwyn atal achosion diangen o ailymchwilio i achosion o baru fel rhan o unrhyw ymarfer paru data dilynol. Bydd data a gedwir yn ddarostyngedig i ofynion deddfwriaeth diogelu data.

## Cyflwyno adroddiadau ar ymarferion paru data

91 Mae'n bosibl y bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn cyhoeddi adroddiadau ar ei ymarferion paru data. Byddant yn crynhoi'r gwaith a'r canlyniadau a gyflawnwyd. Fodd bynnag, ni fyddant yn cynnwys unrhyw wybodaeth bersonol a gafwyd at ddibenion ymarferion paru data y gellir adnabod person neu gorff ohoni oni fydd y wybodaeth honno eisoes yn wybodaeth gyhoeddus. Pa un bynnag, ni fydd yr Archwilydd Cyffredinol yn cyhoeddi unrhyw wybodaeth bersonol oni fydd angen gwneud hynny er mwyn arfer ei swyddogaethau adrodd yn briodol ac oni fydd yn unol â deddfwriaeth diogelu data. Gall yr Archwilydd Cyffredinol gyflwyno adroddiad ar gynnydd erlyniadau sy'n deillio o ymarferion paru data i'r graddau bod y wybodaeth a gyflwynir yn gyhoeddus a bod unrhyw adroddiadau o'r fath yn cydymffurfio â deddfwriaeth diogelu data.

## Adolygu ymarferion paru data

92 Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn adolygu gweithdrefnau paru data yn rheolaidd, gan ystyried, er enghraifft, p'un a yw ansawdd setiau data yn dderbyniol a ph'un a yw'r cyrff sy'n cymryd rhan yn cyrraedd safonau diogelwch.

93 Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn adolygu canlyniadau pob ymarfer er mwyn mireinio'r dewis o ddata a'r technegau a ddefnyddir mewn ymarferion yn y dyfodol. Fel rhan o'i adolygiadau, bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn ystyried unrhyw gwynion neu sylwadau gan gyrff sy'n cymryd rhan neu bobl y proseswyd eu data fel rhan o'r ymarferion.

# Rhan 3 – Cydymffurfio â'r Cod a Rôl y Comisiynydd Gwybodaeth

## Cydymffurfio â'r Cod

94 Pan ddaw'r Archwilydd Cyffredinol yn ymwybodol nad yw corff sy'n cymryd rhan wedi cydymffurfio â gofynion y Cod, bydd yn hysbysu'r corff dan sylw ac yn ceisio sicrhau ei fod yn rhoi mesurau digonol ar waith i fodloni gofynion y Cod.

95 Dylid cyfeirio cwestiynau am y Cod a phryderon am achosion o ddiffyg cydymffurfio at Swyddog Diogelu Data'r corff sy'n cymryd rhan neu'r Archwilydd Cyffredinol i ddechrau, cyn cysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth.

## Rôl y Comisiynydd Gwybodaeth

96 Mae'r Comisiynydd Gwybodaeth yn rheoleiddio cydymffurfiaeth â deddfwriaeth diogelu data. Os caiff mater ei gyfeirio at y Comisiynydd Gwybodaeth, byddai'n ystyried p'un a yw'r cyrff sy'n cymryd rhan a'r Archwilydd Cyffredinol wedi cydymffurfio â'r Cod hwn wrth benderfynu p'un a fu achos o dorri deddfwriaeth diogelu data ai peidio, ym marn y Comisiynydd Gwybodaeth. Lle y bu achos o dorri deddfwriaeth diogelu data, bydd y Comisiynydd Gwybodaeth yn penderfynu p'un a oes angen camau gorfodi ai peidio a natur a graddau unrhyw gamau gorfodi. Mae gwybodaeth am ddull gweithredu'r Comisiynydd Gwybodaeth mewn perthynas ag achosion o dorri diogelwch data a gorfodi ar gael ar wefan y Comisiynydd Gwybodaeth.

97 Gellir cyfeirio cwestiynau am ddeddfwriaeth diogelu data a rhannu gwybodaeth at y Comisiynydd Gwybodaeth, a gellir cysylltu â'r Comisiynydd yn:

The Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF

Llinell Gymorth Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth: 0303 123 1113 neu 01625 545 745

E-bost: casework@ico.org.uk

Gwefan: https://ico.org.uk/ (defnyddiwch y ffurflen ymholiadau ar-lein ar gyfer cwestiynau sy'n ymwneud â'r ddeddfwriaeth y mae'r Comisiynydd Gwybodaeth yn gyfrifol amdani)

98 Mae'n bosibl y gofynnir i'r Comisiynydd Gwybodaeth adolygu gwaith prosesu paru data'r Archwilydd Cyffredinol o bryd i'w gilydd, er mwyn asesu p'un a yw'n cydymffurfio â deddfwriaeth diogelu data. Anogir cyrff sy'n cymryd rhan i wahodd Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth i adolygu eu gweithdrefnau. Diben yr adolygiad hwn fyddai asesu cydymffurfiaeth cyrff sy'n cymryd rhan ag egwyddorion diogelu data wrth brosesu data personol at ddibenion ymarferion paru data.

# Atodiad 1 – ynglŷn â'r Fenter Twyll Genedlaethol a'i gweithgareddau

## Y Fenter Twyll Genedlaethol

Mae'r Fenter Twyll Genedlaethol yn rhan o waith Swyddfa'r Cabinet i ddatblygu a darparu mynediad at weithgareddau rhannu data, paru data a dadansoddi er mwyn helpu i drechu twyll ym mhob rhan o'r llywodraeth drwy nodi a lleihau colledion.

Drwy ddod ag amrywiaeth eang o sefydliadau cyhoeddus a phreifat ledled y DU ynghyd, mae'r Fenter Twyll Genedlaethol yn mynd i'r afael â thwyll drwy ddefnyddio ymarferion paru data i gymharu gwahanol setiau data er mwyn nodi achosion posibl o hawliadau a gordaliadau twyllodrus.

Mae'r Fenter Twyll Genedlaethol hefyd yn gweithio gydag asiantaethau archwilio cyhoeddus ym mhob rhan o'r DU i ddadansoddi setiau data allweddol a ddarperir gan adrannau'r llywodraeth er mwyn atal a chanfod twyll. Mae'r sefydliadau sy'n cymryd rhan yn y Fenter yn gyfrifol am olrhain achosion o baru ac ymchwilio iddynt, ac am nodi achosion o dwyll a gordaliadau.

## Gweithgareddau'r Fenter Twyll Genedlaethol

Yr Ymarfer Cenedlaethol yw'r ymarfer canfod twyll sefydledig a gynhelir bob dwy flynedd, ac mae gwybodaeth am y mathau o ymarferion paru a gynhelir ar gael yn y fanyleb data ar wefan Swyddfa Archwilio Cymru.

Fel rhan o'i gwaith i gynyddu'r defnydd o ymarferion paru data, mae'r Fenter Twyll Genedlaethol wedi ychwanegu gweithgaredd canfod twyll o'r enw AppCheck. Mae'r gweithgaredd hwn yn helpu i atal twyll ar adeg gwneud cais, gan felly leihau costau gweinyddol a chostau cynnal ymchwiliadau yn y dyfodol.

Mae'r Fenter Twyll Genedlaethol hefyd yn cynnig ReCheck sy'n galluogi cyrff sy'n cymryd rhan i ailgynnal ymarferion paru data a gynhaliwyd eisoes ar adeg sy'n gyfleus iddynt hwy er mwyn helpu i nodi achosion o dwyll yn gynharach.

Mae'r Fenter Twyll Genedlaethol yn gweithredu drwy we-borth diogel, Fraud Hub, lle y bydd cyrff sy'n cymryd rhan yn lanlwytho data ac yn gallu cael gafael ar adnoddau a gynlluniwyd i'w helpu i gymryd rhan yn y Fenter Twyll Genedlaethol.

Mae Diogelwch Haen Gludo (‘Transport Layer Security (TLS)’ yn Saesneg) yn brotocol amgryptio a ddefnyddir i ddiogelu data a gaiff eu hanfon rhwng cyfrifiaduron. Pan fydd dau gyfrifiadur yn anfon data, byddant yn cytuno i amgryptio’r wybodaeth mewn ffordd y gall y ddau ei deall. Gan ddibynnu ar y rheolau sydd ar waith, gall y naill neu’r llall wrthod cysylltu os na allant ddod o hyd i ddull amgryptio addas.

Ym mis Awst 2018, newidiodd y Fenter Twyll Genedlaethol lefel amgryptio TLS er mwyn gallu trosglwyddo data yn fwy diogel wrth eu lanlwytho i’r gwe-borth.

# Atodiad 2 – Diffiniadau

Defnyddiwyd y diffiniadau canlynol yn y Cod hwn.

| Term | Diffiniad |
|---|---|
| Cod | Cod Ymarfer Paru Data 2018 |
| Corff gorfodol | Corff y mae'n ofynnol iddo gan yr Archwilydd Cyffredinol yn unol ag adran 64B o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 ddarparu data ar gyfer ymarfer paru data. |
| Corff sy'n cymryd rhan | Naill ai corff gorfodol neu gorff sy'n cymryd rhan yn wirfoddol sy'n darparu data i'r Archwilydd Cyffredinol neu ei asiantiaid at ddibenion ymarfer paru data. |
| Corff sy'n cymryd rhan yn wirfoddol | Corff y mae'r Archwilydd Cyffredinol o'r farn ei bod yn briodol derbyn data ganddo ar sail wirfoddol at ddibenion paru data. |
| Cyswllt allweddol | Y swyddog a enwebir gan uwch swyddog cyfrifol corff sy'n cymryd rhan i weithredu fel pwynt cyswllt â'r Archwilydd Cyffredinol ac asiantiaid yr Archwilydd Cyffredinol (megis Swyddfa'r Cabinet) at ddibenion ymarferion paru data. |
| Data cleifion | Data sy'n ymwneud ag unigolyn a ddelir at ddibenion meddygol (o fewn ystyr adran 251 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 2006) ac y gellir adnabod yr unigolyn ohonynt (gan gynnwys data clinigol, megis cofnodion meddygol, a data demograffig, megis cyfeiriadau cleifion). |
| Data personol | Data sy'n ymwneud â pherson (byw) naturiol y gellir nodi'r person hwnnw'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol ohonynt. |
| Deddfwriaeth diogelu data | Fel y'i diffinnir yn adran 39 o Ddeddf Diogelu Data 2018 ac mae'n cynnwys y ddeddf honno yn ogystal â Rheoliad Cyffredinol 2016/679 ar Ddiogelu Data (GDPR) a rheoliadau perthnasol. |

| Term | Diffiniad |
|---|---|
| Paru adeg gwneud cais | Croeswirio gwybodaeth a ddarperir gan geiswyr budd-daliadau, nwyddau neu wasanaethau yn erbyn setiau data eraill ar yr adeg y gwneir y cais. |
| Paru data | Cymharu setiau o ddata, megis y gyflogres neu gofnodion buddiannau un corff yn erbyn cofnodion eraill a ddelir gan yr un corff neu gorff arall er mwyn penderfynu i ba raddau y maent yn cyfateb er mwyn gallu nodi anghysondebau a allai awgrymu hawliadau a thaliadau twyllodrus. |
| Rheolydd data | Y person naturiol neu gyfreithiol, awdurdod cyhoeddus, asiantaeth neu gorff arall sydd, ar ei ben ei hun neu ar y cyd ag eraill, yn pennu diben a dull prosesu data personol. |
| Rhyngwynebau rhaglennu cymwysiadau (API) | Meddalwedd sy’n cyrchu ac yn rhyngweithio â systemau a chronfeydd data eraill er mwyn cynnal ymarferion paru data. |
| Swyddog cyfrifol | Cyfarwyddwr Cyllid neu uwch aelod arall penodol o staff y corff sy’n cymryd rhan sy’n gyfrifol am sicrhau cydymffurfiaeth â’r Cod hwn. |

Wales Audit Office

1 Capital Quarter

Tyndall Street

Cardiff CF10 4BZ

Tel: 029 2032 0500

Fax: 029 2032 0600

Textphone: 029 2032 0660

We welcome telephone calls in Welsh and English.

E-mail: info@audit.wales

Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru

1 Cwr y Ddinas

Stryd Tyndall

Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn Testun: 029 2032 0660

Rydym yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru